**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 sy'n cynnwys diwygiadau i Adran 155 (2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019 eu gosod gerbron Senedd y DU ar 13 Rhagfyr 2018. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma:

http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111176788/contents

**Crynodeb o’r Rheoliadau a’u hamcan**

3. Amcan yr OS, yn bennaf, yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel y darperir ar gyfer hynny gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

4. Mae'r Rheoliadau'n diwygio sawl darn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chaffael ond mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymdrin â diwygiadau technegol i adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen y diwygiadau hyn er mwyn sicrhau bod y darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn parhau i weithio'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â’r UE.

5. Mae'r OS y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymwneud ag ef wedi ei osod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, a bydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai y bydd un o aelodau'r naill Dŷ neu'r llall yn Senedd y DU yn gwrthwynebu hynny. Os na fydd unrhyw wrthwynebiad o'r fath, byddai'r darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ati yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar y diwrnod ymadael.

**Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

6. Y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac sy'n cael ei diwygio gan yr OS drafft yw adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy’n cael ei diwygio gan reoliad 3 o'r Rheoliadau. Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer diffinio term drwy gyfeirio at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn hytrach na thrwy gyfeirio at Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus. Rheoliadau domestig yw Rheoliadau

Contractau Cyhoeddus 2015 a roddodd effaith i'r Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus.

7. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac y gallent fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Pam mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon**

8. Diwygiad cymharol fach a thechnegol ei natur yw hwn sy'n darparu ar gyfer diffinio termau penodol drwy gyfeirio at gyfres o reoliadau domestig a roddodd effaith i un o Gyfarwyddebau'r UE, yn hytrach na thrwy gyfeirio at Gyfarwyddeb yr UE ei hun. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy’n gysylltiedig â’r cywiriad. Byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Goblygiadau ariannol**

9. Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn.

**Yr Athro Mark Drakeford AC**
**Prif Weinidog Cymru**
18 Rhagfyr 2018